**Cofnodion a Chamau Gweithredu**

## Fforwm Rhanbarthol Gogledd Cymru

| | |
|---|---|
| Mynychwyr: | Iwan Prys Jones, Jim Jones, Rhian Wyn Williams, Steph Smith, Peter Daniels, Andrew Mytton, Lowri Joyce, Gethin Jones, Nichole Sarra, Katie Powis, Ceri Taylor, Lois Park, Hugh Evans, David Clark, Ben Clifford, Andrew Gainsbury |
| Dyddiad | 25 Mawrth 2020 |
| Amser | 10:00 – 12:00 |
| Lleoliad | Microsoft Teams |

| Rhif eitem | Cofnodion | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| 1. | **Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau -** Lowri Joyce (LJ) Trafnidiaeth Cymru<br><br>Gwnaed cyflwyniadau trwy Teams a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Stena, Avanti, Cyngor Sir y Fflint a Melanie Lawton.<br><br>Esboniodd LJ mai hwn oedd y fforwm cyntaf i'w gynnal ac yn wir yr un cyntaf i'w gynnal trwy Teams. Yn wreiddiol, roedd y cyfarfod yn mynd i gael ei gynnal yn Coed Pella, yr oedd Steph yng Nghonwy wedi cytuno'n garedig i ni ei ddefnyddio.<br><br>Eglurodd LJ y trefniadau ymarferol gyfer y cyfarfod. | |
| 2. | **Pwrpas a Chylch Gwaith Fforwm Rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru** - Lowri Joyce (LJ) Trafnidiaeth Cymru<br><br>Esboniodd Lowri Joyce (LJ) gylch gwaith a phwrpas y fforwm rhanbarthol. | **Rhannu sleidiau gyda'r Fforwm.** |
| 3. | **Amserlen Rhagfyr 2020 -** David Clark (DC) Trafnidiaeth Cymru<br><br>Cyflwynodd DC newidiadau amserlen Rhagfyr 2020 yn unol â'r daflen.<br><br>Holodd Jim Jones (JJ) a oedd unrhyw newidiadau i Ogledd Cymru? Cadarnhaodd DC nad oedd unrhyw newidiadau wedi'u cynllunio hyd yma ar gyfer Gogledd Cymru ond gallai fod rhywfaint wrth symud ymlaen. Mae Arfordir y Gorllewin yn edrych ar newidiadau.<br><br>Llinell Caer i'r Amwythig, sy'n teithio o Fangor tua'r dwyrain - a yw'r materion yn cael sylw ym mis Rhagfyr? Nododd DC fod TrC yn edrych i fynd i'r afael â hyn ym mis Mai ond y byddai angen iddo gadarnhau camau gweithredu gyda'r tîm ehangach. Ychwanegodd LJ fod TrC yn edrych ar amryw o wahanol opsiynau ac wedi derbyn adborth cryf gan randdeiliaid. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd Iwan Prys Jones am drenau brig rhwng Manceinion a Chaer ac a allai rhanddeiliaid fod yn rhan o'r trafodaethau hynny. Cadarnhaodd DC fod trafodaethau yn parhau rhwng TrC, Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth (DfT). Ychwanegodd Iwan Prys Jones y byddai o ddiddordeb, yn enwedig oherwydd y gorlenwi sy'n digwydd ar y gwasanaeth hwnnw a chysylltiadau gwael rhwng Gogledd Cymru a Manceinion.<br><br>Nododd JJ fod llawer o waith wedi mynd i mewn i gynllun Growth Track 360 ac na fyddent am golli'r momentwm a godwyd trwy'r gwaith hwnnw.<br><br>Gofynnodd JJ a oedd mesurau diogelwch ychwanegol wedi'u cyflwyno yn sgil risg COVID-19. Dywedodd LJ fod yna dudalen we bwrpasol, mae'r giard yn cael ei annog i aros yn y cab, bydd llai o staff mewn rolau sy'n wynebu'r cyhoedd, a byddwn yn gweithredu amserlen lai. Ychwanegodd Gethin Jones (GJ) fod Prif Weithredwr TrC yn cael sgyrsiau gyda gweithredwyr rheilffyrdd eraill, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. | **TrC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau Gogledd Cymru - Manceinion** |
| 4. | **Diweddariad am Gerbydau –** Andrew Gainsbury (AG) Trafnidiaeth Cymru<br><br>Cyflwynodd AG ddiweddariad ar y cerbydau yn unol â'r daflen. Pwysleisiodd fod llawer o'r cyflenwyr yn gweld llai o weithluoedd ar hyn o bryd ac y gallai hynny gael effaith ar y rhaglenni hyn.<br><br>Gofynnodd Ann Elias ynglŷn â'r cerbydau Dosbarth 197, oherwydd bu rhywfaint o drafod ynghylch nifer gostyngol y seddi ar yr unedau hyn o gymharu â'r fflyd gyfredol. Dywedodd AG fod nifer y seddi yn gymharol â cherbydau Dosbarth 158 oherwydd bod gwell darpariaeth ar gyfer y rheini ag anableddau/ardaloedd pobl â symudedd is (PRM) ond mae mwy o wasanaethau ar y gweill, gan redeg fel trenau 5 cerbyd sy'n golygu y bydd y capasiti cyffredinol yn cynyddu (gwasanaethau Manceinion i Dde Cymru er enghraifft). Ar sail uned wrth uned, nid oes cynnydd mewn capasiti ond yn y ffordd y cânt eu defnyddio yn gyffredinol, bydd cynnydd. Nododd Ann Elias fod hwn yn ganlyniad cadarnhaol ac y dylid ei rannu. | |
| 5. | **Gwasanaeth yn lle'r Rheilffyrdd** – Ben Clifford (BC) Trafnidiaeth Cymru<br><br>Cyflwynodd BC ddiweddariad ar ddarparu gwasanaeth yn lle'r rheilffyrdd yn unol â'r daflen.<br><br>Cododd Ann Elias bryder gyda'r ap Arriva a'r broses tracio cerbydau - nododd fod TrC yn gweithio ar adolygu bysiau a rhan o hynny yw'r platfform gwybodaeth amser real gyda Traveline Cymru. A fyddai'n ymddangos yn synhwyrol gwneud rhywfaint o gysylltu yma i sicrhau nad ydym yn prynu rhywbeth ddwywaith? Atebodd BC, gan nodi bod TrC yn is-gontractio eu cludiant ffordd, ac mae trydydd parti sy'n gwneud y gwaith caffael nid TrC. Y bwriad yw ei wneud yn rhwymedigaeth o'r contract i'w gyflawni er mwyn lliniaru unrhyw gostau sy'n cael | |

| | | |
|---|---|---|
| | eu hamsugno gan TrC. Mae'r ffocws ar ein cyflenwyr i ddarparu hyn fel elfen sylfaenol o'r gwasanaeth.<br><br>Dywedodd Hugh Evans (HE) fod tracio cerbydau yn flaenoriaeth yn enwedig i hysbysu cwsmeriaid ble mae bysiau. | |
| 6. | **Rheilffordd Gymunedol –** Hugh Evans (HE) Trafnidiaeth Cymru<br><br>Cyflwynodd HE ddiweddariad ar reilffyrdd cymunedol yn unol â'r daflen (yn lle Melanie Lawton, Rheolwr Rheilffyrdd Cymunedol - Gogledd).<br>Nododd Ann Elias fod llinell Calon Cymru yn gallu creu adeilad cymunedol eu hunain ac a oedd TrC wedi ystyried yn eu cynlluniau le i adeiladau ychwanegol gael eu codi. Roedd Calon Cymru wedi prynu adeilad modiwlaidd.<br>Atebodd HE fod Calon Cymru ychydig yn wahanol gan ei fod yn gwmni datblygu ac nad yw'n cael ei gynnal yn yr un modd â swyddogion rheilffyrdd cymunedol eraill.<br>Dywedodd HE fod gofod yn cael ei ddefnyddio yng ngorsaf Cyffordd Llandudno a gorsaf Abertawe ar gyfer gweithgaredd cymunedol a chymdeithasol. | |
| 7. | **Eitemau Fforwm y Dyfodol ac Unrhyw Fater Arall**<br><br>Gofynnodd LJ a oedd gan unrhyw fynychwyr awgrymiadau ar gyfer eitemau agenda ar gyfer y fforwm yn y dyfodol.<br><br>Nododd HE y gallai mynychwyr y cyfarfod weld lle gallwn gysylltu â'u cydweithwyr cymunedol, os gallant eu fflagio, gallwn weithio gyda'n gilydd. Sicrhau ei fod yn gyd-gysylltiedig a chreu mwy o gyfleoedd a gwell cyfleoedd.<br><br>Awgrymodd Ann Elias ddwy eitem bosibl ar yr agenda - integreiddio rheilffyrdd/bysiau a theithio llesol.<br><br>Nododd Jim Jones fod y cyfarfod wedi bod yn hynod gadarnhaol a'r angen i rannu'r negeseuon cadarnhaol a'r angen i wneud ymdrech farchnata gydlynol. Ychwanegodd HE fod partneriaethau rheilffyrdd cymunedol yn edrych ar wefan o'r enw Wales of Rails i hyrwyddo twristiaeth.<br><br>Diolchodd LJ i'r holl gyfranogwyr a dirwyn y cyfarfod i ben. | **TrC i gynnwys yr eitemau ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol** |